# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT  Ffôn: 01492 515999  Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF BETWS YN RHOS AM 7.00y.h. NOS LUN, 9fed MAI, 2022.**

**1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd Irwedd GRIFFITHS pawb i'r cyfarfod, yn enwedig y tri aelod newydd o'r Cyngor sef, y Cynghorydd Hilda GIBBS, y Cynghorydd Glena HUMPHREY, a'r Cynghorydd Gethin OWEN

**2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr John EVANS; Hilda GIBBS; Glena HUMPHREY; Bryn JONES; D Gwyn JONES; Gethin OWEN; John D. ROBERTS; Goronwy R. WILLIAMS; Hefin WILLIAMS, a'r Cynghorydd Sir Ifor LLOYD. Rhoddwyd llongyfarch i'r Cynghorydd Ifor LLOYD am gael ei ail ethol fel cynyrchiolydd yr ardal ar y Cyngor Sir.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriad gan fod yr aelodau I gyd yn bresennol.

**4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

**5. MUNUDAU**

Ni chafwyd Cyfarfod Blynyddol yn y ddwy flynedd diwethaf o achos y cyfnod clo. Edrychwyd ar gofnodion y flwyddyn 2018/19 a'i cymerdwyo.

**6. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**7. ETHOL CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2022 – 2023**

Cynigwyd Y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS i gario mlaen yn y gadair. (Cynig y Cynghorydd John ROBERTS / Eilio y Cynghorydd Goronwy WILLIAMS). Cytunodd y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS.

**8. ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2022 – 2023**

Cynigwyd y Cynghorydd John EVANS (Cynig y Cynghorydd John ROBERTS / Eilio y Cynghorydd Goronwy WILLIAMS). Cytunedd y Cynghorydd John EVANS.

**9. ETHOL CYNYRCHIOLYDD I BERTNASU GYDA'R CYRFF A'R CYMDEITHASAU CANLYNOL:**

i. Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Betws yn Rhos – y Cynghorydd Hefin WILLIAMS (LEA) a'r Cynghorydd Glena HUMPHREY

ii. Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Plas – y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS

iii. Neuadd y Pentref Betws yn Rhos – y Cynghorydd Gethin OWEN

iv. Canolfan Gymunedol Llanelian yn Rhos – y Cynghorydd D Gwyn JONES

v. Cylch Meithrin – y Cynghorydd Hefin WILLIAMS

vi. Un Llais Cymru – y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS

vii. Mynwent Betws yn Rhos – y Cynghorydd Bryn JONES

viii. Y Neuadd Chwaraeon – y Cynghorydd John EVANS

**10. ETHOLIADAU LLEOL**

Roedd croeso yn barod wedi ei roi i'r aelodau Newydd. Roedd ffurflenni ar gael i bob Aelod gyflawni ynglun a'r Cod Ymddygiad a'r Cydnabyddiaeth Ariannol.
Hefyd atgoffwyd pawb fod cyrsiau yn ymwneud a'r Cyngor ar gael ar y we.

**11. TERMAU CYFLOGAETH Y CLERC**

Nodwyd fod cyflog y Clerc yn dal ar gyfradd y flwyddyn 2015. Cytunwyd i'w newid i'r gyfradd ddiweddara sef y flwyddyn 2021/22, a'i roi ar raddfa SCP7 yn ol termau bresennol NALC. Hefyd, am fod y gwaith cyfieuthu a'r cynnydd yn yr adroddiadau ychwanegol sydd ei hangen yn awr yn cael ei gwneud gan y Clerc pnderfynwyd codi yr oriau o 9½ awr yr wythnos i 11 awr yr wythnos. Yr uchod i'w weithredu o'r cyntaf o Ebrill 2022.

**12. UNRHYW FATER ARALL**

a. O'r flwyddyn yma ymlaen mae'n rhaid cyflwyno Adroddiad Blynyddol ar y Gwaith mae'r Cyngor wedi ei wneud. Ynghlwm yn hyn bydd angen Adroddiad Blynyddol ar yr hyfforddiant mae'r cynghorwyr wedi ei gael.
b. Yn dilyn o'r uchod mae rhaid i'r Cyngor gael rhyw fath o obeithion a chynlluniau beth maent am wneud dros y flwyddyn hon a phethau mwy hir dymor e.e.adnewyddu cae chwarae Betws yn Rhos, Cymorth i adeiladu Canolfan Gymdeithasol Llanelian yn Rhos, cadw'r pentrefi a'r ardal yn daclus.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 7.25y.h.

CADEIRYDD……………………………………………………………DYDDIAD……………………………………